# Urdd Gobaith Cymru

## Adolygiad Blynyddol 2004 / 2005

urdd.org

Rees Astley Ltd

Broceriaid Yswiriant a Chynghorwyr Ariannol Annibynnol



Mae Rees Astley Ltd yn falch o gefnogi Adolygiad Blynyddol Urdd Gobaith Cymru

29 Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2JN
Ffôn: **01970 624261** Ffacs: **01970 611643**
E-bost: **aber@reesastley.co.uk**

Mostyn House, Stryd y Farchnad, Y Drenewydd, Powys SY16 2PQ
Ffôn: **01686 626019** Ffacs: **01686 628457**
E-bost: **newtown@reesastley.co.uk**

5 Lower Brook Street, Croesoswallt, Sir Amwythig SY11 2HG
Ffôn: **01691 670900** Ffacs: **01691 670490**
E-bost: **oswestry@reesastley.co.uk**

BIBA

Independent Financial Adviser

## ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

**Mae'r Urdd yn fudiad sy'n gwneud gwahaniaeth. Mae'n gwneud gwahaniaeth i'r Gymraeg ac mae'n gwneud gwahaniaeth i fywyd diwylliannol Cymru. Drwy'r cyfan oll mae'n gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc. Yn yr adolygiad hwn ceir crynodeb o'r holl weithgareddau sydd wedi gwneud y gwahaniaeth hwnnw.**

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adolygiad sy'n sôn am gynlluniau mor amrywiol â'r Eisteddfod wych a gynhaliwyd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, gwaith arloesol gyda'r elusen Shelter, prosiect cyfnewid cynhyrfus ar y cyd â mudiad ieuenctid yn Iwerddon ac agoriad gwersyll newydd yr Urdd yng Nghaerdydd.

Drwy ein holl weithgareddau, mae ein nod o roi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill y byd, yn ganolog.

Yr ydym eleni yn bwrw ati o ddifrif i gyflawni'r targedau heriol a osodwyd yn ein Cynllun Corfforaethol, sef

- cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, gan roi sylw arbennig i'r oed 12-15
- cynyddu'r pwyslais ar weithredu yn gymunedol, gan gynyddu gweithgareddau amser gwyliau
- cynyddu cyfranogi gan bobl ifanc, a datblygu arweinwyr ifanc.

Ni fyddai'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gennym yn bosibl heb frwdfrydedd, asbri ac egni gwirfoddolwyr a staff ymroddedig. Diolch i bawb am eu cyfraniad.

**Efa Gruffudd Jones**
Prif Weithredwr

## ADRODDIAD Y CADEIRYDD

**Mae'n anodd credu i flwyddyn hedfan heibio ers i mi gyfrannu i adroddiad blynyddol 2004. Unwaith eto eleni, profodd aelodau'r Urdd flwyddyn brysur a llwyddiannus - blwyddyn yn llawn o weithgareddau amrywiol a hynny o dan arweiniad staff ymroddgar a gwirfoddolwyr brwdfrydig. Mae'r cydweithio yma'n allweddol i lwyddiant y mudiad.**

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n ymwneud â'r eisteddfod arbrofol yng Nghanolfan Mileniwm Cymru – yn gystadleuwyr, hyfforddwyr a threfnyddion. Heb amheuaeth, meddiannwyd yr adeilad ysblennydd gan 'Sain Cerdd a Chân' aelodau'r Urdd a chan y Gymraeg.

Mae'r gwersyll dinesig newydd sy'n rhan o Ganolfan y Mileniwm yn ennill ei blwy, a'r gwersylloedd eraill a welodd ddatblygiadau hefyd eleni, yn profi mor boblogaidd ag erioed.

Eleni eto, gwelwyd twf yn y gweithgareddau chwaraeon ac yng ngweithgareddau'r maes gyda datblygu cysylltiadau cyffrous hefyd â mudiad ieuenctid yn Iwerddon, ac rwy'n hynod o falch o'r prosiectau dyngarol amrywiol sy'n digwydd ledled Cymru.

Mae gan yr Urdd rôl bwysig iawn yn natblygiad plant a ieuenctid Cymru, a'n dyletswydd ni yw darparu y cyfleon gorau posibl i'n haelodau. Daliwch ati bawb!

**Rhiannon Lewis**
Cadeirydd

## NOD URDD GOBAITH CYMRU

**Bwriad Urdd Gobaith Cymru yw sicrhau cyfle trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol. Cyflawnir hyn trwy'r delfryd o wasanaeth i Gymru, i Gyd-ddyn a Christ.**

urdd.org

**Urdd Gobaith Cymru,** Ffordd Llanbadarn
Aberystwyth, Ceredigion SY23 1EY
Ffôn: **01970 613100**
E-bost: **urdd@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org**

Rhif Elusen: **524481** Rhif Cwmni: **263310**

## GAIR GAN Y LLYWYDD, CAROL DAVIES

**Pleser pur oedd bod yn Llywydd ar fudiad ieuenctid mwyaf Ewrop, Urdd Gobaith Cymru 2004 – 2005, a hynny yng nghanol blwyddyn fyrlymus tu hwnt.**

Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn, mi gofiaf dan wenu agoriad swyddogol Canolfan y Mileniwm, a chôr yr Urdd yn rhedeg ar y llwyfan i berfformio gydag angerdd - ac mi lwyddon nhw i roi gwefr anferthol i mi a'r gynulleidfa. Alla i ddim anghofio Eisteddfod Canolfan y Mileniwm chwaith - a Chymru a Chymry ym mhob cwr o'r Ganolfan. Bydd y profiadau a'r atgofion egniol a deimlais yr adeg honno yn aros yn fy nghof am byth, ac rwy'n ffyddiog bod arwyddair yr Urdd i fod yn ffyddlon i Gymru, Cyd-ddyn a Christ yn fyw ac yn ddiogel yn nwylo ein hieuenctid.

**Carol Davies**
Llywydd Urdd Gobaith Cymru 2005

## YSTADEGAU DIDDOROL AM URDD GOBAITH CYMRU

- Prif fudiad ieuenctid Cymru
- Aelodaeth o **51,499**
- 1 o bob 3 o holl siaradwyr Cymraeg rhwng 8-18 oed yn aelod
- **25%** o holl blant 10 oed yng Nghymru
- Darparwr chwaraeon blaenllaw Cymru – **250,000** o sesiynau chwaraeon y flwyddyn
- **96,000** o gylchgronau Cymraeg yn cael eu gwerthu'n flynyddol
- **180** o staff a throsiant ariannol o **£5 miliwn**
- **10,000** o wirfoddolwyr mewn **1,000** o ganghennau
- Dros **400,000** o ymweliadau â'n gwefan

## SWYDDOGION URDD GOBAITH CYMRU 2005

Llywydd: **Carol Davies**

Is-Lywyddion:
**Gavin Ashcroft, Andrea Parry**

Llywyddion Anrhydeddus:
**Prys Edwards, Wynne Melville Jones, Bob Roberts**

Is-Lywyddion Anrhydeddus:
**Eurig Davies, Alun Edwards, Janet Evans**

Cadeirydd: **Rhiannon Lewis**

Is-Gadeirydd: **Tudur Dylan Jones**

Trysorydd: **Raymond Walters**

Ysgrifennydd: **Andrea Parry**

Cadeiryddion Taleithiol:
**Kevin Davies (Canolbarth), Sara Gwilym (De)**
**Gwyn Morris (Gogledd)**



05

## ADRAN YR EISTEDDFOD A'R CELFYDDYDAU

- Cafwyd eisteddfod fyrlymus a llewyrchus yn Ynys Môn yn 2004, a gadawyd gwaddol diwylliannol yn yr ardal.
- Eleni cafwyd eisteddfod wych yng Nghanolfan Mileniwm Cymru - eisteddfod a fu'n garreg filltir arbennig i'r mudiad.
- Un uchafbwynt oedd gweld aelodau'r Urdd yn serennu ar un o lwyfannau perfformio gorau'r byd.
- Gyda'r nos cafwyd cyngerdd agoriadol gwefreiddiol, ac ail sefydlwyd Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd a lwyfannodd berfformiad bythgofiadwy o Les Miserables gan dros 100 o'n haelodau ar hyd a lled Cymru.
- Gweddnewidiwyd Bae Caerdydd yn bentref celfyddydol am yr wythnos, ac roedd perfformiadau'r aelodau ar lwyfannau llai, ac yng nghynteddau Canolfan Mileniwm Cymru, yn rhoi gwefr i'r eisteddfodwyr.
- Cystadlodd 40,000 o aelodau'r Urdd yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir, gyda 15,000 ohonynt yn cyrraedd y brifwyl.
- Heidiodd 100,000 o ymwelwyr o Gymru benbaladr a thu hwnt i fwynhau'r myrdd o atyniadau yn yr ŵyl.
- Mewn datblygiadau cyffrous eleni cynhaliwyd cyfres o ddosbarthiadau meistr ar gyfer yr wyth cystadleuydd ar gyfer Ysgoloriaeth Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru.
- Edrychwn ymlaen yn 2006 i ddychwelyd i gefn gwlad ac i faes godidog ar gyrion tref Rhuthun, yng nghesail Moel Famau a chysgod bryniau Dyffryn Clwyd. Bydd croeso twymgalon a gwledd yn eich aros.

**"Mae'r Urdd yn datblygu talent. Mae'n ehangu ein gorwelion ac yn datblygu ein personoliaethau gan roi cyfleoedd i ni gwrdd â phobl ifanc eraill ledled Cymru. Yn ifanc iawn fe ddaethon ni i arfer efo cystadlu ar y llwyfan ac i ymdopi gyda'r pwysau o berfformio. Wedi gadael y Mudiad roeddwn eisoes wedi gwneud camau breision tuag at lwyddiant yn y maes celfyddydol."**
Bryn Terfel

## CYSYLLTWCH Â

**Siân Eirian**
Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau
Ffôn: **01970 613110**
E-bost: **Eisteddfod@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org**

## GWERSYLLOEDD

### Gwersyll yr Urdd Caerdydd Canolfan Mileniwm Cymru

- Agorwyd gwersyll newydd sbon yng Nghanolfan Mileniwm Cymru - gyda 150 o welyau, neuadd, theatr, lolfa ac ystafelloedd dosbarth.
- Mae dros 5000 o blant a phobl ifanc wedi aros yn y gwersyll a daeth 600 o bobl ifanc ar ymweliadau diwrnod gan fwynhau amserlen lawn yn cynnwys ymweliadau â Stadiwm y Mileniwm, Y Cynulliad, Amgueddfa Werin Cymru, Techniquest a llawer mwy.
- Sefydlwyd Ffwrnais Awen, gweithdy celfyddydol wythnosol y gwersyll.
- Perfformiodd cannoedd o aelodau'r Urdd ar y Lanfa yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn wythnosol.
- Dewch draw i'r gwersyll - cynigiwn gyfleoedd celfyddydol newydd i'n hieuenctid a chyfle heb ei ail i ymweld â phrifddinas Cymru.

### Gwersyll yr Urdd Glan-llyn

- Cafwyd blwyddyn brysur arall yn y gwersyll lle y gwelwyd dros 12,000 o ymwelwyr a chynnydd yn y grwpiau unigol sy'n ymweld â Glan-llyn.
- Mae datblygiadau diweddar megis y ddarlithfa/theatr wedi profi i fod yn adnodd ychwanegol defnyddiol a phoblogaidd i'r gwersyll ac i fudiadau allanol, ynghyd â'r ystafelloedd en-suite newydd yn Llys Aran.
- Sefydlwyd digilab newydd sbon trwy gynllun Credu gyda'r adnoddau cyfrifiadurol diweddara.
- Cafwyd adnoddau newydd i weithgareddau y llyn a hefyd addasiadau i'r neuadd chwaraeon.
- Mae datblygiadau a gwelliannau i'r lanfa a'r Cwrs Rhaffau Uchel ar eu ffordd!

### Gwersyll yr Urdd Llangrannog

- Cafwyd blwyddyn lawn a phrysur arall gyda'r gwersyll ar agor am 50 wythnos ac yn croesawu 20,000 o wersyllwyr .
- Mae'r gwersyll ar ei newydd wedd yn profi'n llwyddiannus gyda chanolfan hamdden a llety newydd sbon.
- Mae gwaith wedi dechrau i greu Canolfan Treftadaeth ar y fferm, fydd yn adnodd gwerthfawr arall i'r gwersyll a'r gymuned leol.
- Erbyn hyn mae'r swyddfeydd, a derbynfa newydd, i gyd o dan yr un to yn hen floc cysgu Bryneithin.
- Mae'r gwersyll yn parhau i chwarae rhan bwysig ym mywyd economaidd a chymdeithasol De Orllewin Ceredigion gan gyflogi dros 90 a chyfrannu £2.5miliwn i'r economi lleol.
- Mae'r llethr sgïo a'r ganolfan hamdden newydd ar agor i'r cyhoedd gyda'r nos.
- Mae'r ffordd o Bentregat wedi'i gwella'n ddiweddar. Erbyn hyn gall bysus gyrraedd y gwersyll ar hyd dwy ffordd yn hwylus.

**"Mae'r datblygiad diweddaraf hwn yn dangos fod Gwersyll yr Urdd Llangrannog yn mynd o nerth i nerth… mae'n addas fod yna elfen hanesyddol yn cael ei ychwanegu at yr ystod o weithgareddau eang a gynigir yn y Gwersyll fel bod ymwelwyr yn medru dysgu am bwysigrwydd yr Urdd i fywyd diwylliannol Cymru a hefyd am yr ardal leol."**
Alun Pugh, Gweinidog dros Ddiwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon, am y Ganolfan Treftadaeth newydd.

**"Mae staff Gwersyll Llangrannog sy'n gyfrifol am y gweithgareddau yn groesawgar i'r plant, yn egluro'r gweithgaredd yn dda ac yn barod i helpu unigolion sy'n nerfus, ac ofnus. …Diolch o galon am y croeso twymgalon, safon y gweithgareddau, safon glendid a safon yr adeilad newydd sef Cilborth. Edrych mlaen at y flwyddyn nesaf!"**
Athrawon Ysgolion Cylch Rhydaman

**"Mae'r profiadau mae'r plant yn eu cael yng Nglan-llyn yn dal i wireddu amcanion delfrydau Syr Ifan sef cyfuniad o'r cae chwarae a'r Eisteddfod, neu yng ngeiriau I.D. Hooson – gwin yr hen ffiolau a brofais ddyddiau gynt. "**
Staff Ysgol Derwenfa, Coedllai, Yr Wyddgrug Medi 2004

**"Mae Glan-llyn yn wiced!!"**
Taflen arfarnu cwrs Eryri adrannau yr Urdd, Mehefin 2004

**"Mae Gwersyll yr Urdd Caerdydd yn wych – fel gwesty pum seren!"**
Disgybl o Ysgol Gymraeg Aberystwyth

**"Glan-llyn - yr olygfa orau yng Nghymru …"**
Taflen arfarnu gwyliau teulu Medi 2004

## CYSYLLTWCH AG

**Alun Owens**
Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Caerdydd
Ffôn: **029 2063 5678**
E-bost: **caerdydd@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org**

**Aled Siôn**
Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Glan-llyn
Ffôn: **01678 541000**
E-bost: **glanllyn@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org**

**Steffan Jenkins**
Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Llangrannog
Ffôn: **01239 654473**
E-bost: **llangrannog@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org**

## ADRAN GYFATHREBU A CHYLCHGRONAU

- Ymaelododd **51,499** â'r Urdd eleni, **2,841** ohonynt yn Urddaholics.
- Lansiwyd delwedd newydd i'r mudiad, gyda logo wedi ei fireinio a chanllawiau manwl ar ei ddefnyddio, a bellach mae'r holl ddeunydd marchnata yn cael ei ddylunio gan un cwmni.
- Comisiynwyd arddangosfa newydd, a chafwyd presenoldeb bywiog yn yr Eisteddfodau a'r gwyliau cenedlaethol.
- Ymwelodd 470,000 o bobl â safle gwe yr Urdd.
- Llwyddwyd i sicrhau sylw eang yn y wasg a'r cyfryngau Cymreig, yn enwedig adeg agoriad swyddogol Canolfan Mileniwm Cymru a thros gyfnod Eisteddfod yr Urdd.
- Cyhoeddwyd deg rhifyn yr un o **Cip**, **Bore Da** a **iaw!**, ac mae'r cylchgronau yn cael eu darllen gan 28,000 o blant a phobl ifanc ledled Cymru bob mis.
- Trefnwyd gweithdai e-bost gyda Tudur Dylan, Bardd Plant Cymru - mae'r Urdd yn un o'r partneriaid yn y fenter hon - a chyhoeddwyd mai Mererid Hopwood ydi Bardd Pant Cymru 2005-2006.

**"Rwy'n hoffi'r cystadlaethau sydd yn Cip. Mae yna ddigon o bethau yn Cip i'n cadw ni'n brysur. Dw i'n hoffi'r posau, y storïau, y gornel jôcs a phethau eraill."**
Disgybl o Ysgol Cymerau, Hydref 2004

**"Bore Da - misolyn hynod ddifyr a lliwgar sy o gymorth mawr i blant ac athrawon yn ein hardaloedd Seisnigedig ni."**
Athrawes Ymgynghorol o ardal Caerdydd, Medi 2005

### CYSYLLTWCH Â

**Siân Eleri Davies**
Cyfarwyddwr Cyfathrebu
Ffôn: **01970 613118**
E-bost: **sianeleri@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org**



## Y MAES A CHWARAEON

### Gweithgareddau Hamdden, Addysgol a Chelfyddydol

- Darparwyd gwasanaeth i 51,499 o aelodau gan ein swyddogion datblygu, ein swyddogion datblygu cynorthwyol a'n swyddogion chwaraeon mewn dros 1,000 o adrannau.
- Bu dau o'r Urddaholics ar daith gyfnewid i Lybia ac yn sgil hynny maent yn y broses o gyflawni Gwobr Aur Rhagoriaeth Ieuenctid.
- Mae dros 100 o Urddaholics wedi dilyn cynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm gan wneud dros 100 awr o waith gwirfoddol yn y gymuned.
- Enillodd prosiect amgylcheddol gan Gynllun Ieuenctid Caerdydd Wobr Impetus 2005.
- Croesawyd grŵp o 35 o blant Gwlad Pwyl i Gymru fel rhan o'n cynllun cymorth i blant difreintiedig y wlad.
- Am y tro cyntaf lluniwyd Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd gan ysgol ail iaith, sef Ysgol Gyfun Treorci.
- Cynhaliwyd dros 150 o weithgareddau hamdden i bobl ifanc yn ystod gwyliau ysgol.
- Bu dros 900 o aelodau ar deithiau preswyl yng Nghymru a thramor yn ystod y flwyddyn.
- Lansiwyd prosiect cyffrous Bendigeidfran ar y cyd â mudiad ieuenctid Ogras yn Iwerddon. Bwriad y cynllun yw pontio ieuenctid Cymru ac Iwerddon.
- Mae cydweithio clos gyda Shelter Cymru ar y gweill.

### Chwaraeon

- Cynhaliwyd cystadlaethau chwaraeon rhanbarthol a Gwyliau Chwaraeon a Nofio Cenedlaethol yng Nghaerdydd, Abertawe, Aberystwyth, Bangor a Llanelli.
- Daeth 134 o dimoedd i gystadlu yn yr Ŵyl Rygbi Uwchradd Genedlaethol yn Llanelli a 119 o dimoedd i gystadlu yn yr Ŵyl Bêl-rwyd Genedlaethol yng Nghaerdydd.
- Llwyddodd tîm yr Urdd gyrraedd gêm derfynol Cystadleuaeth Rygbi Rhyngwladol Ieuenctid saith bob ochr yn Dubai.
- Am y tro cyntaf, cynhaliwyd Gŵyl Gymnasteg am ddeuddydd yn Aberystwyth.
- Cynhaliwyd cystadlaethau Acwathlon mewn dau ranbarth, ac mae'n fwriad cynnal cystadleuaeth genedlaethol y flwyddyn nesaf.
- Lansiwyd prosiect newydd ar y cyd â Chlwb Rygbi Scarlets Llanelli i ddatblygu chwaraewyr rygbi ifanc.
- Hyfforddwyd 29 o arweinyddion chwaraeon newydd yn ystod yr wythnos Chwaraeon Haf a gynhaliwyd yng Ngwersyll Llangrannog.
- Derbyniwyd £12,000 gan gynllun Sports Match (Cyngor Chwaraeon Cymru) i redeg cynlluniau golff newydd yn Sir Fflint ac ardal Dyffryn Aman a Dyffryn Gwendraeth.

**"Rwy'n hynod o falch gydag ymroddiad yr Urdd i wella iechyd a ffitrwydd pobl ifanc yng Nghymru. Mae'n wych gweld y boblogaeth ifanc yn cymryd diddordeb byw mewn gweithgareddau chwaraeon."**
Jane Hutt, Gweinidog Iechyd, haf 2004

### CYSYLLTWCH Â

**Dafydd Carrington**
Cyfarwyddwr Talaith y Gogledd a'r Canolbarth
Ffôn: **01686 626521**
E-bost: **dafydd@urdd.org**

**Dyfrig Morgan**
Cyfarwyddwr Talaith y De
Ffôn: 02920 635682
E-bost: dyfrig@urdd.org

Gwefan: **urdd.org**

## NAWDD

**Rydym yn ymdrechu i sicrhau cefnogaeth ariannol i waith yr Urdd o bob math o ffynonellau. Heb y gefnogaeth hon ni fyddai modd i ni gynnig yr amrediad o brofiadau sy'n cael eu disgrifio yn yr adolygiad hwn.**

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government **£550,000**

### Ffynonellau Ariannol

**Cynigwyd y grantiau canlynol:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Ieuenctid Cymru | **£71,100** |
| Cyngor Llyfrau Cymru | **£23,000** |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | **£152,441** |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | **£12,056** |
| Cronfa Gymunedol | **£6,889** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru (Eisteddfod 2004) | **£25,000** |
| Cyngor Sir Ynys Môn (Eisteddfod 2004) | **£200,000** |

**Grantiau Llangrannog a Glan-llyn**

| | |
|---|---|
| Amcan 1 EAGGF | **£16,410** |
| Bwrdd Croeso Cymru | **£25,000** |
| Cyngor Sir Ceredigion LRF | **£9,031** |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru LRF | **£100,000** |

### Nawdd

Rydym yn chwilio yn barhaus am noddwyr newydd, sy'n gallu ein cefnogi drwy gymorth ymarferol neu ariannol. Mae'r buddiannau y gallwn eu cynnig yn cynnwys sylw yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru a brandio ar ddeunyddiau amrywiol.

Noddodd Post Brenhinol gystadleuaeth ysgrifennu llythyr yn y cylchgrawn **Cip** eleni.

**Ymddiriedolaethau**

| | |
|---|---|
| BBC Plant Mewn Angen (dros 3 blynedd) | **£78,813** |
| Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen | **£2,500** |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Simon Gibson | **£6,000** |
| Sefydliad Hedley | **£4,000** |
| Sefydliad Jane Hodge | **£3,000** |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Mary Homfray | **£2,000** |
| Sefydliad Atlantic | **£500** |
| Cymdeithas Elusennol y Cymry Michael Sorbell | **£500** |
| Sefydliad Mr & Mrs J T Morgan | **£200** |
| Ymddiriedolaeth Ford o Brydain | **£200** |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Hamer | **£200** |

**Prif Gymynroddion**

| | |
|---|---|
| Glyndwr Williams, Awstralia | **£79,195** |
| Mrs Eluned Ellis Jones, Caernarfon | **£5,071** |
| Mr Ellis Eifion Jones, Penygroes | **£3,574** |
| Richard Goodman Davies, Caer | **£2,826** |
| Mrs Katie Roberts, Penygroes | **£1,000** |
| Dr Gweneth Lilly, Llanfairfechan | **£1,000** |

### Awdurdodau Lleol

| | |
|---|---|
| Powys | **£7,354** |
| Ceredigion | **£7,500** |
| Caerfyrddin | **£15,450** |
| Penfro | **£7,250** |
| Penybont | **£1,500** |
| Rhondda Cynon Taf | **£5,000** |
| Torfaen | **£5,000** |
| Caerffili | **£10,000** |
| Môn | **£16,960** |
| Gwynedd | **£32,130** |
| Conwy | **£16,952** |
| Wrecsam | **£4,125** |
| Fflint | **£2,500** |
| Amrywiol – Eisteddfod | **£9,253** |

Diolchwn i'r noddwyr a gefnogodd Eisteddfod yr Urdd. Cafwyd £163,100 o nawdd tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2005 gan y canlynol:

Cyngor Dinas Caerdydd, HSBC, Bwrdd Croeso Cymru, UCI, Cyngor Celfyddydau Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Tesco, Knight Frank, Cardiff Waterside, Morley Fund Management, Associated British Ports, Principality, Specsavers Optical Group, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, Post Brenhinol, Hugh James, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, S4C, Prifysgol Cymru Abertawe, Nationwide, Coleg y Drindod Caerfyrddin, Corus, Ffilic Cyf, 30 Park Place, Mwnci, Npower Renewables RWE Group, UCAC, Abie Danter, Bwydydd Castell Howell, StrataMatrix, Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr, Prysg.

## CYSYLLTWCH AG:


**Eurfyl Lewis**
Cyfarwyddwr Datblygu
Ffôn: **01267 676652**
E-bost: **eurfyl@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org**




## DATGANIAD YR ARCHWILYDD AR Y CRYNODEB ARIANNOL

**DATGANIAD YR ARCHWILWYR I YMDDIRIEDOLWYR URDD GOBAITH CYMRU**

**Yr ydym wedi arholi'r crynodeb ariannol ar y dudalen yma.**

**Cyfrifoldebau priodol ymddiriedolwyr ac archwilwyr**

Yr ydych chi fel ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r crynodeb ariannol. Yr ydym wedi cytuno i adrodd i chi ein barn ar gysondeb y crynodeb ariannol gyda'r cyfrifon statudol llawn, a arwyddwyd ar 29 Medi 2005.

**Sail ein barn**

Yr ydym wedi gwneud y gwaith hynny yr ydym yn ei ystyried yn addas i sefydlu a ydy'r crynodeb ariannol yn gyson gyda'r datganiadau ariannol pan baratowyd y rhain oddi wrthynt.

**Ein barn**

Yn ein barn mae'r crynodeb ariannol yn gyson gyda'r datganiadau ariannol llawn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2005.

**Patterson Jones & Evans**
Archwilwyr Cofrestredig, Llanbedr Pont Steffan

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR**

Mae'r cyfrifon uchod yn grynodeb o wybodaeth a dynnwyd oddi wrth y datganiadau ariannol llawn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol llawn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 29 Medi 2005 ac maent wedi'u hanfon i'r Tŷ Cwmnïau ac i'r Comisiwn Elusennau. Archwiliwyd y cyfrifon gan Patterson, Jones & Evans a rhoddwyd adroddiad diamod arnynt.

Mae'n bosib nad yw'r crynodeb ariannol yn rhoi gwybodaeth ddigonol i roi dealltwriaeth lawn ar faterion ariannol yr elusen. Felly, am wybodaeth bellach, dylid ymgynghori â'r cyfrifon statudol llawn; Adroddiad yr Archwilwyr ar y cyfrifon hynny, ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Ceir copïau o'r rhain oddi wrth y cwmni.

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y TRYSORYDD 2004/5**

Bu llynedd yn gyfnod prysur iawn unwaith eto yn hanes y mudiad, fel yr adlewyrchir yn ein canlyniadau ariannol am y flwyddyn. Mae'r ffigyrau yn adlewyrchu cymhlethdod natur gweithgareddau masnachol yr Urdd erbyn hyn, yng nghanol cyfnod parhaus o fuddsoddi mewn adnoddau sefydlog drud – byddwn yn gweld gwerth y buddsoddiadau yma am flynyddoedd i ddod.

Er i ni ragweld colled ariannol am y flwyddyn mae'r golled o £351,231 ar weithgareddau cyffredinol a ddangoswyd yn ein cyfrifon llawn am y flwyddyn yn uwch na'r disgwyl. Ynghyd â chostau sefydlu Caerdydd, y prif resymau am hyn oedd:

- gwersylloedd heb gyrraedd targedi incwm heriol a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Dylid nodi bod y gwersylloedd yn cael eu cynnal heb unrhyw fath o gymhorthdal

- mae cyfraniad grantiau i'r mudiad yn gyffredinol wedi gostwng mewn termau real, ac mae hyn yn ffactor pwysig sydd angen sylw mwy manwl
- cynnydd sylweddol yng nghost yswiriant cyffredinol y mudiad yn adlewyrchu marchnad lle mae nifer y cwmnïoedd sy'n awyddus i gynnig telerau yn y maes hwn yn lleihau

Mae mesurau pendant eisoes wedi eu gweithredu er mwyn sicrhau fod perfformiad ariannol y flwyddyn gyfredol yn dangos gwelliant, gan gynnwys:

- adolygu strwythur prisiau'r gwersylloedd er mwyn adlewyrchu gwir gost darparu'r adnoddau amrywiol o'r safon uchaf, mewn amgylchedd diogel
- rheolaeth gadarn ar gostau yn gyffredinol
- adolygu a chryfhau prosesau marchnata'r mudiad
- hyrwyddo perthnasau rhwng yr Urdd a mudiadau ieuenctid eraill trwy Gymru er mwyn cynyddu incwm oddi wrth grantiau yn gyffredinol

Mae ein diolch yn fawr iawn unwaith eto i holl staff yr Urdd, a'r gwirfoddolwyr lu sydd wedi ein cynorthwyo yn ystod y flwyddyn, er mwyn cynnig profiadau mor amrywiol i ieuenctid Cymru. Mae'n hanfodol ein bod yn dal i gynnig y cyfleon yma yn y blynyddoedd i ddod, tra'n sicrhau seiliau ariannol cadarn ar yr un pryd.

**Raymond Walters**
Trysorydd
Medi 2005

## CWMNI URDD GOBAITH CYMRU CYFYNGEDIG

### MANTOLEN 31 MAWRTH 2005

| | 2005 £ | 2004 £ |
|---|---|---|
| **ASEDION SEFYDLOG** | | |
| Eiddo Sylweddol | 9,536,954 | 8,701,850 |
| Buddsoddion | 1,217,007 | 1,090,320 |
| | **10,753,961** | **9,792,172** |
| **ASEDION CYFREDOL** | | |
| Stoc | 54,417 | 49,848 |
| Dyledwyr | 361,116 | 866,327 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 219,929 | 663,649 |
| | **635,462** | **1,579,824** |
| **CREDYDWYR:** | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | (1,882,584) | (2,176,139) |
| Rhwymedigaethau cyfredol net | (1,247,122) | (596,315) |
| Asedion llai rhwymedigaethau cyfredol | 9,506,839 | 9,195,857 |
| **CREDYDWYR:** | | |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | (1,714,334) | (1,532,769) |
| | **7,792,505** | **7,663,088** |
| **CRONFEYDD** | | |
| Cronfeydd cyfyng | 4,661,952 | 4,569,115 |
| Cyfrif incwm a thraul | 2,493,961 | 2,631,617 |
| Cronfa ail-brisio buddsoddion | 465,912 | 309,955 |
| Cronfeydd gwaddol | 170,680 | 152,401 |
| **CRONFEYDD** | **7,792,505** | **7,663,088** |

### INCWM

| | |
|---|---|
| 1) Gwersyll yr Urdd Llangrannog a Phentre Ifan | 1,466,990 |
| 2) Gwersyll yr Urdd Glan-llyn | 868,573 |
| 3) Gwersyll yr Urdd Caerdydd | 54,609 |
| 4) Incwm o fuddsoddion | 30,256 |
| 5) Eisteddfod Ynys Môn (gan gynnwys grantiau) | 1,402,774 |
| 6) Cylchgronau | 73,510 |
| 7) Aelodaeth | 249,669 |
| 8) Rhoddion a chymynroddion | 183,621 |
| 9) Amrywiol | 156,888 |
| 10) Nawdd | 12,268 |
| 11) Grantiau (gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg) | 862,400 |
| 12) Grantiau tuag at gwariant cyfalaf | 291,885 |
| **Cyfanswm Incwm am 2004/2005:** | **5,653,443** |

### GWARIANT:


| | |
|---|---|
| 1) Gwersyll yr Urdd Llangrannog a Phentre Ifan | 1,337,087 |
| 2) Gwersyll yr Urdd Glan-llyn | 785,054 |
| 3) Gwersyll yr Urdd Caerdydd | 199,687 |
| 4) Costau datblygu'r maes a rhanbarth | 988,659 |
| 5) Eisteddfod | 1,353,276 |
| 6) Cylchgronau | 117,677 |
| 7) Gweinyddiaeth a rheoli | 236,575 |
| 8) Costau cefnogi ac eraill | 534,565 |
| 9) Costau codi arian a chyhoeddusrwydd | 43,180 |
| 10) Dibrisiant | 99,110 |
| **Cyfanswm Gwariant am 2004/2005:** | **5,694,870** |

### CANLYNIAD Y FLWYDDYN – URDD GOBAITH CYMRU


Mae'r cyfanswm incwm yn cynnwys £5,147,605 o gronfeydd rhydd, £498,545 o gronfeydd clwm a £7,293 o gronfeydd gwaddol. Mae'r cynnydd net am y flwyddyn ar ôl trosglwyddiadau rhwng cronfeydd o £216,694 yn cynnwys diffyg o £137,655 ar gronfeydd rhydd, cynnydd net o £92,837 o gronfeydd cyfyng a diffyg net o £273 ar gronfeydd gwaddol.

| | 2005 £ | 2004 £ |
|---|---|---|
| Mewn llif net o adnoddau am y flwyddyn | (41,427) | 1,939,737 |
| Colled ar werthu buddsoddion | (3,118) | (30,705) |
| | **(44,545)** | **1,909,032** |
| Cynnydd/(Lleihad) ar ail-brisio buddsoddion – heb eu realeiddio | 173,962 | 225,018 |
| Cynnydd net mewn cronfeydd | 129,417 | 2,134,050 |
| Cronfeydd ar 1 Ebrill 2004 | 7,663,088 | 5,529,038 |
| **Cronfeydd ar 31 Mawrth 2005** | **7,792,505** | **7,663,088** |

### INCWM 2004-2005



### GWARIANT 2004-2005



**CYSYLLTWCH Â**
**Mai Parry Roberts**
Cyfarwyddwr Busnes a Phersonél a
Dirprwy Brif Weithredwr Ffôn: **01678 541010**
E-bost: **mai@urdd.org** Gwefan: **urdd.org**